

Diweddariadau i Ganllawiau Technegol yr ASB ar ofynion labelu a gwybodaeth mewn perthynas ag alergenau bwyd

Statws Wedi dod i ben

Dyddiad lansio 23 Ionawr 2020

Dyddiad cau 6 Mawrth 2020

Summary of responses

[View Canllawiau Technegol: Gofynion labelu a gwybodaeth mewn perthynas ag alergenau bwyd \(crynodeb o ymatebion yn Saesneg yn unig\) as PDF \(268.25 KB\)](#)

I bwy fydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb fwyaf?

- Busnesau Bwyd sy'n cynnig bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS) (Gweler Atodiad B)
- Cyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant bwyd
- Awdurdodau gorfodi
- Unrhyw sefydliad neu berson arall sydd eisiau gwybod mwy am newidiadau sydd ar y gweill i'r gofynion cyfreithiol ar gyfer darparu gwybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd PPDS.

Beth yw pwnc yr ymgynghoriad hwn?

Gosodwyd Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio) (Lloegr) 2019 (Offeryn Statudol 2019 Rhif 1218) gerbron y Senedd ar 5 Medi 2019. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2021 a byddant yn newid y ffordd y mae gofyn i fusnesau bwyd yn Lloegr ddarparu gwybodaeth am alergenau ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS).

Mae deddfwriaeth gyfwerth ar wahân ar y gweill yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon. Pwnc yr ymgynghoriad hwn yw diweddariadau arfaethedig i Ganllawiau Technegol yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ar labelu alergenau bwyd a gofynion gwybodaeth o dan Reoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr yr UE Rhif 1169/2011 ("Canllawiau Technegol yr ASB").

Mae'r diweddariadau hyn yn bennaf i adlewyrchu'r gofynion cyfreithiol newydd hyn, ond rydym ni hefyd yn achub ar y cyfle hwn i gynnig rhai diweddariadau technegol/drafftio. Bydd y diweddariadau i'r canllawiau yn berthnasol yn Lloegr a disgwylir iddynt fod yn berthnasol yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon. Byddai'r ASB felly'n croesawu barn a sylwadau rhanddeiliaid yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon.

Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Ceisio barn a sylwadau rhanddeiliaid yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon ar ddiweddariadau arfaethedig i'r Canllawiau Technegol.

Pecyn ymgynghori

[View Ymgynghoriad canllawiau technegol ar labelu alergenau as PDF](#) (524.31 KB)

[View Canllawiau technegol ar labelu alergenau - Ymgynghoriad drafft \(Saesneg yn unig\) as Word](#) (812.74 KB)

Sylwadau a barn

Anfonwch unrhyw sylwadau a safbwyntiau at:

Duncan Harris

Tîm Datblygu Rheoleiddio a Chefnogaeth Broffesiynol, y Gyfarwyddiaeth Polisi Bwyd

Llawr 6

Clive House,

70 Petty France,

Westminster,

Llundain,

SW1H 9EX.

E-bost: duncan.harris@food.gov.uk

Ffôn: 020 7276 8334

Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion

Rydym ni'n gobeithio cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a ddaw i law o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad a darparu dolen i'r crynodeb o'r dudalen hon.

Yn unol ag egwyddor yr Asiantaeth o fod yn agored, byddwn yn cadw copi o'r ymgynghoriad a'r ymatebion llawn, a fydd ar gael i'r cyhoedd ar gais. Gallai'r crynodeb o'r ymatebion hefyd gynnwys data personol, fel eich enw llawn. Ni fyddwn yn datgelu unrhyw ddata personol arall oni bai y ceir cais am yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad. Os nad ydych am i'r wybodaeth hon gael ei rhyddhau, ewch ati i lenwi a dychwelyd y Ffurflen Cyhoeddi Data Personol. Nid yw dychwelyd y ffurflen hon yn golygu y byddwn yn trin eich ymateb i'r ymgynghoriad yn gyfrinachol, dim ond eich data personol.

[View Cyhoeddi data personol as PDF](#) (52.9 KB)

[View Cyhoeddi data personol \(doc\) as Word](#) (228 KB)

Rhagor o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag Egwyddorion Ymgynghori Llywodraeth EM.

Os oes Asesiad Effaith wedi cael ei gynhyrchu, bydd wedi'i gynnwys yn y dogfennau

ymgynghori. Os nad oes Asesiad Effaith wedi cael ei ddarparu, bydd y rheswm yn cael ei nodi yn y ddogfen ymgynghori.